94. Lefel Canolradd: Sgwrs rhwng dau ddieithryn ar drên

Cydradd 1af: Jackie Lee + Jonathon Morris

Ffugenw: Y Gath Ddu

Enw: Jackie Lee

A. Wel, helo, dw i ddim wedi gweld chi ar y trên 'ma o'r blaen.

B. Helo. Na. Dyna fy nhro cynta.

A. Felly lle dach chi'n mynd?

B. Dw i'n mynd i Fetws-y-coed.

A. Betws-y-coed! Wel, mae hynny'n hyfryd! Mae'n brydferth yno. Dw i'n mynd yno yn aml. Be fyddi di'n gwneud yno?

B. O, mynd am dro yn y goedwig, mae'n debyg. Lle dach chi'n mynd?

A. O, dw i'n teithio ar y tren 'ma drwy'r amser! Heddiw, dw i'n mind i barti teuluol yn Llanrwst. Mi fydd lot o fwyd, a phlant yn chwarae gemau, a sŵn a hwyl!

B. Mae'n swnio'n ofnadwy!

A. O, na, dw i wrth fy modd! Mae 'na lawer o fwyd blasus wedi ei ollwng ar y llawr, ac y plant i gyd wrth eu boddau yn tynnu fy nghlustiau ac yn goglais fy mol.

B. Wel mae'n well gen i redeg trwy fwd a rholio mewn pyllau dŵr, ond dydy fy mherchennog ddim yn ei hoffi, yn enwedig ar ôl i mi rolio mewn pethau drewllyd!

A. Wel, dyma fi! Amser mynd! Hyfryd eich cyfarfod chi. Gobeithio bod ni'n cyfarfod eto cyn bo hir.

B. Hwyl! Mwynhewch y parti!

94.Lefel Canolradd – Sgwrs rhwng dau ddieithryn ar drên

Cydradd 1af: Jackie Lee + Jonathon Morris

Ffug enw: Crwydryn Adref

Enw: Jonathon Morris

Rhamant

- Ga i eistedd yma?
- Wrth gwrs…ond sut oeddech chi'n gwybod fy mod i'n siarad Cymraeg?
- Sylwgar iawn!
- Ond mae'n gwestiwn da. Dan ni ar drên yng Nghymru a rhaid i ni ddyfalu pwy sy'n siarad Cymraeg.
- Ga i ofyn, Cymro dach chi? Dydy eich acen ddim yn swnio'n Gymreig.
- Sylwgar eto! Dydw i ddim hyd yn oed o Brydain, ond dwi wrth fy modd yng Nghymru felly 'nes i ddechrau dysgu Cymraeg…..yna 'nes i syrthio mewn cariad â'r iaith.
- Ai dyna pam dach chi'n darllen llyfr o'r enw 'Cariad yn yr haul'?
- Wel dwi ddim yn dod i Gymru am yr haul, ond mae hen nofelau rhamant o siop elusen yn goleuo fy meddwl fel petai.
- Wir?
- Aderyn dieithr 'dw i. Dwi'n picio rhwng llyfr gramadeg a nofelau o'r saithdegau bob yn ail. Mae'r llyfrau gramadeg yn dechnegol ac mae gan y nofelau sgwrsio naturiol heb ormod o *Wenglish* fel nofelau diweddar. Dim ond punt y llyfr! Fedra i ddysgu'r rhannau o'r Gymraeg dwi'n eu caru – idiomau, diarhebion, ffyrdd o feddwl. Fydd Wenglish ddim yn fy helpu yno.
- A fedrwch chi siarad â dieithriaid yn eu hiaith eu hunain.
- Medraf wir!